

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad blynyddol 2021/2022



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

1. Cyflwyniad

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) gynhyrchu a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn am 2021/2022 yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Ebrill 2021 hyd 31 Mawrth 2022 ac mae'n amlinellu sut mae'r Cyngor wedi parhau i gydymffurfio yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal â thynnu sylw at unrhyw ddatblygiadau newydd /meysydd cynnydd.

2. Y ffordd y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Nid yw'r Cyngor bellach dan her ynghylch unrhyw safonau a gellir gweld unrhyw newidiadau i ddyddiadau cydymffurfio, estyniadau neu amgylchiadau ar gyfer y safonau a heriwyd o'r blaen yn hysbysiad cydymffurfio diwygiedig y Cyngor.

2.1 Cydymffurfio'n Gyffredinol

- Mae gan y Cyngor o hyd swyddog arweiniol sy'n ymdrin â'r Gymraeg.
- Mae'r cyflogeion yn parhau i dderbyn diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth ynghylch y Gymraeg o ran cydymffurfio, mynediad at adnoddau megis hyfforddiant a chodi proffil yr iaith a'r diwylliant.
- Yn ein modiwl e-ddysgu cynefino corfforaethol ceir adran benodol sydd wedi ei neilltuo i'r Gymraeg a'i phwysigrwydd, sy'n cyfeirio cyflogeion newydd at adnoddau gwybodaeth eraill.
- Yn ein modiwl e-ddysgu cynefino i reolwyr ceir adran benodol sydd wedi ei neilltuo i'r Gymraeg a'i phwysigrwydd, sy'n cyfeirio rheolwyr newydd at adnoddau gwybodaeth eraill.
- Fel rhan o'r rhaglen gynefino i reolwyr bydd y swyddog sy'n gyfrifol am y Gymraeg yn rhoi cyflwyniad ar Safonau'r Gymraeg a'r hyn y mae hynny'n ei

olygu yn ymarferol i reolwyr, ac felly'n sicrhau eu bod yn deall rhwymedigaethau'r Cyngor a'u cyfrifoldebau hwythau fel rheolwyr.

- Mae tudalennau mewnwyd y staff a'r mewnlwch e-bost Cymraeg yn dal i fodoli (WLS@bridgend.gov.uk).
- Mae'r Cyngor yn dal i ddarparu amrywiaeth o hyfforddiant ac adnoddau Cymraeg i'r staff.
- Mae'r Cyngor yn parhau i gynorthwyo staff i fynychu cyrsiau yn y gymuned ar hyfforddiant Cymraeg.
- Gall cyflogeion gael mynediad at fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i gael cymorth cyfieithu.
- Mae gennym [ddogfen gydymffurfio](#) ar gael o hyd sy'n rhoi manylion sut y byddwn yn cydymffurfio â'r safonau yn ymwneud â darparu gwasanaethau perthnasol, yn weithredol, o ran cofnodion, a hysbysebu a llunio polisïau. Mae ein [gweithdrefn gwynion](#) hefyd ar gael ar ein gwefan yn ogystal ag [adroddiadau blynyddol](#) blaenorol.
- Rydym yn parhau i ddarparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl y gofyn.

2.2 Safonau darparu gwasanaeth

Yn 2021/2022 rydym wedi parhau i wneud y canlynol:

- Ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbyniwyd lle bo angen ateb.
- Cyhoeddi fersiynau dwyieithog cyffredinol neu fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân o ohebiaeth, heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Darparu cyfarchiad dwyieithog dros y ffôn a, lle bo'n berthnasol, bydd y sgysiau yn parhau yn Gymraeg tan y diwedd neu trosglwyddir y sawl sy'n galw i staff sy'n siarad Cymraeg (os oes rhywun ar gael), neu i staff sy'n siarad Saesneg os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ac mae'r cwsmer yn fodlon ar hynny.
- Gweithredu un prif rif ffôn (01656 643643) ar gyfer y rheiny sy'n dymuno siarad â rhywun yn Saesneg neu yn Gymraeg. Os na fydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar adeg yr alwad, dywedir yn Gymraeg wrth y sawl sy'n galw pryd y bydd y gwasanaeth hwnnw ar gael. Gall y rheiny sy'n dymuno siarad â rhywun yn Gymraeg adael neges yn Gymraeg hefyd.
- Datgan ar ddeunyddiau, sy'n hysbysebu rhif ffôn y Cyngor, fod croeso i alwadau yn Gymraeg a Saesneg. Rydym yn parhau i drin y Gymraeg heb fod yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y deunyddiau hysbysebu.
- Gofyn i bobl yr ydym wedi eu gwahodd i gyfarfod a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod a gwneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn hwyluso hyn.

- Anfon gwahoddiadau dwyieithog i gyfarfodydd/digwyddiadau'r Cyngor (lle bo'n berthnasol) a'r cyfarfodydd/digwyddiadau hynny'n cael eu hariannu gan y Cyngor (50% neu ragor o gyllid). Gofynnir i unrhyw un sy'n rhoi cyflwyniad mewn cyfarfod a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg a dywedir yn ogystal wrth y rhai sy'n mynd i fod yn bresennol fod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod (os byddwn yn cael gwybod ymlaen llaw). Mae'r deunyddiau a defnyddir i hysbysebu'r cyfarfodydd/digwyddiadau hyn neu i gael eu harddangos yn y cyfarfodydd/digwyddiadau hefyd yn ddwyieithog.
- Asesu'r galw am gyrsiau addysg Cymraeg sy'n agored i'r cyhoedd ac, os bydd angen, cynnig y cwrs yn Gymraeg. Mae'r wybodaeth hon yn dal i gael ei chyhoeddi ar ein gwefan.
- Cynhyrchu deunyddiau marchnata, hysbysebu a chyhoeddusrwydd (gan gynnwys datganiadau a chyhoeddiadau i'r wasg) yn ddwyieithog. Mae hyn yn wir hefyd am ddogfennau corfforaethol sydd ar gyfer y cyhoedd megis polisïau a rheolau yn ogystal â dogfennaeth ymgynghori. Nod y dogfennau hyn yw trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd fersiynau Saesneg o ddogfennau ar wahân, sydd hefyd ar gael yn Gymraeg (lle mae'n ofynnol iddynt fod), yn datgan hyn ar y fersiwn Saesneg.
- Cynhyrchu ffurflenni, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn ddwyieithog neu fel fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân. Os bydd fersiynau ar wahân ar gael, byddwn yn datgan ar fersiwn Saesneg y ffurflen fod ffurflen Gymraeg ar gael.
- Ymateb yn Gymraeg i negeseuon Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol lle bo ateb yn ofynnol.
- Newid arwyddion enwau strydoedd, lleoedd a chyfeiriad (gan gynnwys arwyddion dros dro lle bo'n berthnasol), yn dilyn difrod neu draul arferol, am rai dwyieithog gyda'r testun Cymraeg yn ymddangos yn gyntaf.
- Cynhyrchu hysbysiadau swyddogol yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg yn ymddangos yn gyntaf.
- Peri bod staff y dderbynfa sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo laniardiau i ddangos i gwsmeriaid eu bod yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg.
- Gwneud cyhoeddiadau llafar yn ddwyieithog gyda'r cyhoeddiad Cymraeg yn gyntaf.
- Sicrhau bod ceisiadau am grant (a'r broses), tendrau (a chyfweliadau) ar gael yn Gymraeg.
- Hybu'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael gennym fel bo angen.
- Rydym yn parhau i gynhyrchu ein hagenda a chofnodion ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet a phwyllgorau yn ddwyieithog (safon 41). Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan.
- Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi parhau i ddatblygu cynnwys a swyddogaethau dwyieithog ar y wefan fel oedd angen (safonau 52 a 56).
- Parhau i osod negeseuon dwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol ac ymateb yn Gymraeg i gwestiynau a dderbynnir yn Gymraeg, lle bo angen ateb. Ni

fyddwn yn gosod negeseuon yn ddwyieithog mewn amgylchiadau pan fydd argyfwng neu angen cyfathrebu ar frys.

Datblygiadau newydd yn 2021/2022:

- Rydym wedi parhau i wella a datblygu ein platfform ar-lein Fy Nghyfrif, gan alluogi tanysgrifwyr i adrodd am faterion megis rheoli plâu a goleuadau stryd drwy gyfrwng y Gymraeg ar y platfform.
- Rydym wedi penodi Swyddog Iaith Gymraeg, a fydd yn cefnogi'r swyddog arweiniol i fonitro cydymffurfiaeth a chyflwyno Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

2.3 Safonau llunio polisi

Yn 2021/2022 rydym wedi parhau i wneud y canlynol:

- Defnyddio ein proses asesu effaith ar gydraddoldeb (EIA) i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chymryd i ystyriaeth pan fydd polisiau yn cael eu hadolygu neu eu datblygu.
- Gofyn i'r rheiny sy'n cymryd rhan mewn ymgynghoriad, ymgysylltiad a gweithgaredd ymchwil am eu barn ynghylch p'un a allai penderfyniad polisi (os yn berthnasol) gael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg.
- Ystyried yr effeithiau y gallai dyfarnu grantiau eu cael ar y defnydd o'r Gymraeg.

Datblygiadau newydd ar gyfer 2021/2022:

- Rydym wedi diweddarau ein proses EIA er mwyn sicrhau ein bod yn asesu effaith unrhyw bolisi, arferiad neu benderfyniad strategol ar y defnydd o'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.
- Mae Polisi Dyfarnu Grantiau wedi'i ysgrifennu gan Grŵp Deddf a bydd yn cael ei gyflwyno'n fuan i'r Tîm Rheoli Corfforaethol i'w drafod a'i fabwysiadu. Unwaith y bydd cymeradwyaeth wedi'i rhoi bydd y polisi'n cael ei rannu gyda swyddogion sy'n gweinyddu grantiau.

2.4 Safonau Gweithredu

Yn 2021/2022 rydym wedi parhau i wneud y canlynol:

- Galluogi cyflogeion i gael mynediad at y weithdrefn a'r broses gwyno yn Gymraeg gan gynnwys y ddogfennaeth berthnasol.
- Galluogi cyflogeion i gael mynediad at y weithdrefn a'r broses ddisgyblu yn Gymraeg gan gynnwys y ddogfennaeth berthnasol.
- Darparu mynediad at feddalwedd gyfrifiadurol er mwyn i staff wirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg.

- Sicrhau bod yr adrannau/rhyngwyneb perthnasol o'n mewnrwyd yn hygyrch yn Gymraeg a bod adran wedi ei neilltuo i'r Gymraeg ar y fewnrwyd fel adnodd i'r staff.
- Asesu sgiliau Cymraeg ein cyflogeion yn barhaus.
- Cynnal hyfforddiant 'cyfarfod a chyfarch' a chael cyrsiau Cwrs Mynediad ar gael i'r staff.
- Cael pecynnau e-ddysgu ar gael i'r staff ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant yn ogystal ag ar Safonau'r Gymraeg.
- Darparu mynediad at lofnodion e-bost dwyieithog a negeseuon allan o'r swyddfa. Anogir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i'w disgrifio eu hunain fel y cyfryw ar eu llofnod e-bost (gan ddefnyddio'r logos perthnasol cydnabyddedig).
- Asesu'r sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd a swyddi gwag. Ceir dadansoddiad o'r wybodaeth hon yn adran pump.
- Sicrhau bod y broses o ymgeisio am swydd a'r ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac nad yw'r broses Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn hefyd yn cynnwys contractau cyflogaeth.
- Gwirio dewis iaith y cyflogeion er mwyn darparu gohebiaeth yn ymwneud â'u cyflogaeth, a ffurflenni amrywiol yn ymwneud â chyflogaeth yn Gymraeg fel bo angen.
- Sicrhau bod polisiau perthnasol Adnoddau Dynol ar gael yn Gymraeg, a darparu hyfforddiant (e-ddysgu) yn Gymraeg mewn recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, hyfforddiant cynefino, a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu (safonau 128 a 129).
- Cael arwyddion dwyieithog yn eu lle yn ein prif dderbynfa (y Swyddfeydd Dinesig) gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf.
- Adrodd ar y [strategaeth bum mlynedd](#) ym mhwyllgor Cydraddoldeb ein Cabinet yn flynyddol.

Datblygiadau newydd ar gyfer 2021/2022:

- Mae'r cyngor wedi gofyn i drigolion o bob rhan o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ysgolion, Aelodau a rhanddeiliaid eraill rannu eu barn drwy gymryd rhan mewn ymgynghoriad cyhoeddus ar yr amcanion drafft ar gyfer yr Iaith Gymraeg. Aeth yr ymgynghoriad cyhoeddus yn fyw ar 10fed o Mai 2021 a daeth i ben ar 18fed o Mehefin 2021. Cyhoeddwyd Strategaeth a chynllun gweithredu newydd y Gymraeg ar gyfer 2021 i 2026 ar wefan y Cyngor ar 1 Medi 2021.
- Lanswyd yr ymgynghoriad ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ar 17 Medi 2021. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gwahodd safbwyntiau ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio barn trigolion, ein gweithlu, aelodau etholedig a rhanddeiliaid ar y Cynllun Strategol

Cymraeg mewn Addysg arfaethedig ar gyfer 2022-2032. Defnyddiwyd canlyniadau'r ymgynghoriad i lywio'r CSGA terfynol a fydd yn cael ei roi ar waith ym mis Medi 2022. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 19 Rhagfyr 2021, a chyflwynwyd y canlyniadau i'r Cabinet ym mis Ionawr 2022.

- Rydym wedi parhau i wneud cynnydd yn natblygiad y lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae grŵp llywio sy'n cynnwys gweithwyr gofal plant proffesiynol a chydweithwyr yn y trydydd sector wedi'i sefydlu ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau darpariaeth effeithiol dros y tair blynedd nesaf.
- Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo ein swydd Cymraeg hanfodol, gan ein galluogi i recriwtio siaradwyr Cymraeg ychwanegol i wella ein darpariaeth Gymraeg.

2.5 Safonau cadw cofnodion

Yn 2021/2022 rydym wedi parhau i wneud y canlynol:

- Cofnodi unrhyw gwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â'n cydymffurfiaeth fel rhan o'n system gwynion gorfforaethol.
- Monitro a chofnodi nifer y cyflogeion sy'n defnyddio cyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg – gweler adran pedwar am fanylion pellach
- Cofnodi sgiliau Cymraeg cyflogeion ac asesiadau o swyddi newydd a swyddi gwag – gweler adran pump am fanylion pellach.
- Cofnodi nifer y rhyngweithiadau Cymraeg sy'n digwydd dros nifer o sianeli (y ffôn, wyneb yn wyneb, e-bost a digidol) yng nghanolfan gyswllt gwasanaethau cwsmeriaid - gweler adran chwech am fanylion pellach.

3. Cwynion

- Derbyniodd y Comisiynydd gwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 15 Mawrth 2022 ynghylch Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a Pharc Gwledig Bryngarw.

Yn y gwyn adnabuwyd nad oedd Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn gwbl ymwybodol o'r gofynion arnynt o dan Safonau'r Gymraeg ac roedd yn ymddangos nad oedd trefniadau digonol mewn lle i sicrhau bod yr ymddiriedolaeth yn ymwybodol o ba safonau sy'n berthnasol iddi ac felly beth sydd ei angen i sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflwyno tystiolaeth i'r comisiynydd i ddangos bod Awen yn cydymffurfio a Safonau'r Gymraeg. Ar adeg yr adroddiad, nid oedd CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi derbyn ymateb i'r dystiolaeth yr oedd wedi'i chyflwyno i'r Comisiynydd.

- Ni dderbyniwyd cwynion dan safonau llunio polisi.

4. Sgiliau a hyfforddiant i gyflogeion

Sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2021:

Disgrifiad	Ysgolion			
	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	%
Cyfanswm yr unigolion	702	2217	2919	
Siarad Cymraeg				
'Ychydig'	123	386	509	17.44%
'Gweddol Dda	10	40	50	1.71%
'Rhugl'	23	87	110	3.77%
'Na'	368	1169	1537	52.66%
'Dim ymateb'	178	535	713	24.43%
Darllen Cymraeg				
'Ychydig'	122	416	538	18.43%
'Gweddol Dda	18	53	71	2.43%
'Rhugl'	21	89	110	3.77%
'Na'	362	1124	1486	50.91%
'Dim ymateb'	179	535	714	24.46%
Ysgrifennu Cymraeg				
'Ychydig'	81	337	418	14.32%
'Gweddol Dda	19	42	61	2.09%
'Rhugl'	16	77	93	3.19%
'Na'	405	1226	1631	55.88%
'Dim ymateb'	181	535	716	24.53%

Y Cyngor ac eithrio Ysgolion			
Gwryw	Benyw	Cyfanswm	%
530	2438	2968	
Siarad Cymraeg			
80	381	461	15.53%
11	88	99	3.34%
22	143	165	5.56%
80	367	447	15.06%
337	1459	1796	60.51%
Darllen Cymraeg			
77	392	469	15.80%
12	94	106	3.57%
23	145	168	5.66%
80	347	427	14.39%
338	1460	1798	60.58%
Ysgrifennu Cymraeg			
70	359	429	14.45%
12	85	97	3.27%
21	135	156	5.26%
89	398	487	16.41%
338	1461	1799	60.61%

Sylwch, os gwelwch yn dda:

- Mae categori'r 'Ysgolion' yn cynnwys cyflogeion sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan gyrff llywodraethu. Mae staff cynhwysiant wedi eu cynnwys yng nghategori'r 'Cyngor ac eithrio Ysgolion'.
- Mae categori 'Dim ymateb' yn cynnwys cyflogeion sydd heb roi manylion o eu sgiliau Cymraeg.
- Mae'r lefelau sgiliau a nodwyd yn seiliedig ar hunanasesiad unigolion.
- Mae 219 o weithwyr yn dal swydd ysgol a 'Pob gwasanaeth arall' ac yn cael eu cyfrif unwaith ym mhob categori.

Nifer y cyflogeion a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022:

- Mae 26 o gyflogeion wedi mynychu hyfforddiant ‘Cwrs Mynediad’ yn 2021/22, sydd wedi eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau iaith ymhellach. Mae hyn yn cynnwys y rheiny oedd yn dilyn blwyddyn 1, ar sail dwy awr yr wythnos dros 30 wythnos.
- Cafodd 28 o gyflogeion eu cynorthwyo i fynychu cyrsiau Cymraeg yn y gymuned. Roedd y cyrsiau hyn yn cynnwys Lefel Sylfaenol, Sylfaen Rhan 1 a Sylfaen Rhan 2, Sylfaen Rhan 3.
- Ni wnaed ceisiadau am ddeunyddiau hyfforddiant wyneb yn wyneb i fod ar gael yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.
- Cwblhawyd 34 o fodiwlau e-ddysgu Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg (Saesneg – 19, Cymraeg – 1) a Safonau’r Gymraeg (14).
- Cwblhaodd 298 o gyflogeion newydd fodiwl e-ddysgu hyfforddiant cynefino corfforaethol a chwblhaodd 43 o ddechreuwyr ef drwy gyfrwng llyfr gwaith. Cyfanswm y rhai a gwblhaodd oedd 341. Mae’r modiwl cynefino corfforaethol yn cynnwys adran ar gyflwyniad i’r Gymraeg, Safonau’r Gymraeg a chysylltiadau i’r Modiwlau E-ddysgu Cymraeg a Chyfleoedd Hyfforddiant Cymraeg.
- Cwblhaodd 28 o reolwyr newydd y modiwl e-ddysgu cynefino i reolwyr. Mae’r hyfforddiant cynefino i reolwyr yn cynnwys cyflwyniad i’r Gymraeg a Safonau’r Gymraeg a chysylltiadau i’r Modiwl e-ddysgu ar Safonau’r Gymraeg a’r Modiwl e-ddysgu ar Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg.

5. Recriwtio a dethol

Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod 2021/2022 lle roedd sgiliau Cymraeg yn:

Categori	Nifer y swyddi a gategoreiddiwyd	Canran y swyddi a gategoreiddiwyd
Hanfodol	23	3.12%
Dymunol	714	96.88%
Angen dysgu Cymraeg	0	0.00%
Dim angen sgiliau Cymraeg	0	0.00%

6. Gwasanaethau derbynfya: canolfannau cyswllt a chanolfannau cyswllt dros y ffôn

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y ganolfan Wyneb yn Wyneb a’r ganolfan Cyswllt dros y Ffôn rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Cyfanswm ceisiadau wyneb yn wyneb	0
-----------------------------------	---

Ceisiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y rhyngweithiadau wyneb yn wyneb a gynhaliwyd	0
Swm y galwadau yn ystod oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg)	108,291
Swm y galwadau a dderbyniwyd y tu allan i oriau (Cymraeg a Saesneg)	2,734
Cyfanswm y galwadau a dderbyniwyd (Cymraeg a Saesneg)	111,072
Swm y galwadau yn Gymraeg	47
Ceisiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y galwadau	0.0004%

Oherwydd bod swyddfeydd y Cyngor ar gau, ni chofnodwyd ymweliadau wyneb yn wyneb am y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar draws unrhyw iaith. Gyda hyn, roeddem yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol mewn cyswllt dros y ffon ac ar-lein. Cynyddodd ceisiadau ffon o 111,072 i 120,783. Rydym wedi parhau rhyngweithio'n rheolaidd a'r cyhoedd ynghylch y cymorth sydd ar gael, gydag atebion ar-lein i rhyngweithio â ni, yn ogystal â datblygu ein hymateb llais rhyngweithiol dros y ffôn i alwadau llwybr drwodd i'r ardal gywir y tro cyntaf, yn hytrach nag i wasanaeth switsfwrdd.

Wedi dweud hynny, rydym wedi gweld gostyngiad enfawr yn y nifer o geisiadau i siarad â ni yn Gymraeg, er inni recriwtio siaradwr Cymraeg ychwanegol i'n canolfan gyswllt yn ystod y flwyddyn i gynorthwyo i ddelio â mwy o siaradwyr Cymraeg pan fyddai angen.

7. Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb (EIAs)

Cynhaliwyd pedwar EIA llawn ac roeddent yn ystyried effaith polisiâu/strategaethau ar gyfle pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol a thrin y ddwy iaith yn gyfartal. Ni chanfuwyd effaith ac, o ganlyniad, ni wnaed diwygiadau i'r polisiâu/strategaethau arfaethedig a aseswyd.

8. Hybu a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

Bu'r Cyngor yn hybu'r digwyddiadau a'r gweithgareddau canlynol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022:

- Afon Felin – Campws Cymraeg Gwobr Aur
- Ysgol Gynradd Litchard – Campws Cymraeg Gwobr Aur
- Haf o Hwyl yr Urdd
- Mae gwaeth wedi dechrau ar ddarpariaeth 4 ysgol Gymraeg newydd – Melin Ifan Ddu

- Dechreuwyd adeiladau canolfan gofal plant cyfrwng Cymraeg Cwm Garw
- Dau ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd yn dod i Ben-y-bont ar Ogwr
- Dechrau adeiladu gofal plant cyfrwng Cymraeg Betws
- Diwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg
- Shwmae Shwmae
- Mudiad Meithrin a Chymraeg i Blant
- Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg
- Strategaeth / Ymgynghori ar yr Iaith Gymraeg
- Dydd Gŵyl Dewi
- Dydd Santes Dwynwen
- Clwb Coffi
- Cylch chwarae neu ysgol cyfrwng Cymraeg
- Cynnig Gofal Plant Cymru
- Dydd miwsig Cymru
- Cyllid i gynyddu capasiti Ysgol Gymraeg Bro Ogwr a sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ym Mhorthcawl.
- Recriwtio darparwyr gofal plant Cymraeg eu hiaith
- Arolwg Comisiynydd y Gymraeg
- Recriwtio rolau sy'n siarad Cymraeg
- Trydar Cymraeg

Caiff manylion y gweithgareddau hyrwyddo hyn eu dogfennu fel rhan o'n proses adrodd am ein Strategaeth Gymraeg. Adroddir am y cyfnod hwn ym Mhwyllgor Cydraddoldeb ein Cabinet ym mis Tachwedd 2021.